

## **Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary**

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

#### **Heintiau mewn Ysbytai Hospital Infections**

**Q11 Rhodri Glyn Thomas:** Will the First Minister make a statement on efforts to fight hospital infections? OAQ0087(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Our multi-faceted approach to tackling healthcare associated infections is set out in 'Healthcare Associated Infections—A Strategy for Hospitals in Wales'. Other supporting initiatives include the 'cleanyourhands' campaign, the introduction of an audit tool to monitor infection control standards and a new Welsh risk management standard for cleanliness.

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr ymdrechion i drechu heintiau mewn ysbytai? OAQ0087(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae ein hymagwedd amlochrog tuag at fynd i'r afael â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd wedi ei nodi yn 'Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd—Strategaeth ar gyfer Ysbytai yng Nghymru'. Mae mentrau cynorthwyol eraill yn cynnwys yr ymgyrch 'cleanyourhands', cyflwyno offeryn archwilio i fonitro safonau rheoli heintiau a safon rheoli risg Cymreig newydd ar gyfer glanweithdra.

#### **Cyflogaeth Lawn Full Employment**

**Q12 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on the Assembly Government's progress toward the objective of full employment in Wales? OAQ0078(FM)

**The First Minister:** Employment in Wales is now at a record high at 1,335,000. Since the Welsh Assembly came into being, Wales has had the biggest percentage increase in the level of employment and the biggest percentage point increase in the employment rate out of any UK country or English region.

**C12 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflawni'r amcan o sicrhau cyflogaeth lawn yng Nghymru? OAQ0078(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bellach, mae cyflogaeth yng Nghymru yn uwch nag erioed, gan fod 1,335,000 mewn swyddi. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, Cymru fu â'r cynnydd uchaf o ran canran mewn lefel cyflogaeth a'r cynnydd mwyaf o ran pwyntiau canran yn y gyfradd gyflogaeth allan o unrhyw wlad yn y DU neu ranbarth yn Lloegr.

#### **Dilysrwydd Cynhyrchion Bwyd o Gymru The Authenticity of Welsh Food Products**

**Q13 Mick Bates:** Will the First Minister make a statement on the authenticity of Welsh food products? OAQ0095(FM)

**C13 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddilysrwydd cynhyrchion bwyd o Gymru? OAQ0095(FM)

**The First Minister:** Measures to ensure the authenticity of Welsh food produce sold as such are being taken forward by a number of players across the food chain in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Datblygir camau gan nifer o bobl ar draws y gadwyn fwyd yng Nghymru i sicrhau dilysrwydd cynnyrch bwyd Cymraeg a werthir fel hynny.

### **Polisiau Iechyd ynghylch Rhestrau Aros Health Policies on Waiting Lists**

**Q14 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on his administrations health policies on waiting lists? OAQ0088(FM)

**C14 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisiau iechyd ei weinyddiaeth o safbwynt rhestrau aros? OAQ0088(FM)

**The First Minister:** In July 2001, the focus of our policies changed from waiting lists to waiting times. Reducing waiting times and, especially, eliminating long waiting times is one of the Assembly Government's priorities. New targets for 2005-06 will ensure that, by March 2006, no patient will be waiting longer than 12 months for either an out-patient or in-patient appointment.

**Y Prif Weinidog:** Yng Ngorffennaf 2001, symudodd ffocws ein polisiau o restrau aros i amseroedd aros. Mae gostwng amseroedd aros a dileu amseroedd aros hir yn arbennig ymhlith blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd targedau newydd i 2005-06 yn sicrhau na fydd unrhyw glaf, erbyn Mawrth 2006, yn aros yn hwy na 12 mis am apwyntiad fel claf allanol neu fewnol.

### **Timoedd Chwaraeon Proffesiynol yng Nghymru Professional Welsh Sporting Teams**

**Q15 Laura Anne Jones:** What is this Assembly Government doing to support professional Welsh sporting teams? OAQ0071(FM)

**C15 Laura Anne Jones:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi timau chwaraeon proffesiynol yng Nghymru? OAQ0071(FM)

**The First Minister:** The Sports Council for Wales is helping to develop the next generation of professional sportsmen and women. This is done through supporting the recruitment, training and qualification of coaches, umpires and referees in all sports, including rugby, football and cricket, through Elite Cymru, and by investing in sports facilities.

**Y Prif Weinidog:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o fabolgampwyr a mabolgampwragedd proffesiynol. Gwneir hyn drwy gynorthwyo recriwtio, hyfforddi a rhoi cymhwysterau i hyfforddwyr a dyfarnwyr ym mhob math o fabolgampau, gan gynnwys rygbi, pêl-droed a chriced, drwy gyfrwng Elite Cymru, a thrwy fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon.